



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

P M Black

L James

M W Locke

Y Cyngorydd(wyr)

R Fogarty

D H Jenkins

B J Rowlands

Y Cyngorydd(wyr)

P R Hood-Williams

J W Jones

Aelod(au) Cabinet

Y Cyngorydd Rob
Stewart (Arweinydd)

Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth

Swyddog(ion)

Martin Nicholls

Ben Smith

Richard Rowlands

Sarah Lackenby

Marlyn Dickson

Rachel Percival

Prif Weithredwr

Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Adran 151

Rheolwr Perfformiad Corfforaethol

Pennaeth Digidol a Gwasanaethau i Gwsmeriaid

Rheolwr y Rhaglen Newid Strategol

Scrutiny Officer

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): M Jones

36 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Rachel Percival - (Eitem 6) - cysylltiad personol, gadawodd y cyfarfod cyn eitem 6 ac ailymunodd â'r cyfarfod ar gyfer eitem 7 ymlaen.

37 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

38 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

39 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

40 **Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2022/23 - 2025/26**

Roedd y Cynghorydd Rob Stewart, Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth a Ben Smith, y Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151 yn bresennol i roi trosolwg o'r gyllideb ddrafft. Trafodwyd y canlynol:

- Mae ymgynghoriadau ffurfiol ar y gyllideb wedi dechrau ac maent yn parhau.
- Cytunwyd ar arian parod sylweddol ar gyfer 23/34 ond nid yw hyn yn talu'n llawn am unrhyw ddyfarniadau cyflog.
- Bydd gwerth dros £75 miliwn mewn arian parod yn mynd i mewn i gyllidebau'r gyfarwyddiaeth dros y pedair blynedd nesaf, gyda mwy yn mynd i mewn i gronfeydd canolog ond effeithir o hyd ar y pŵer gwario termau go iawn.
- Mae £15m wedi'i gyllidebu ar gyfer costau ynni i dalu am gostau cynyddol chwyddiant tymor byr. Cymerir hyn o'r Gronfa Adferiad Economaidd yn y tymor byr.
- Mae angen £22.3 miliwn o arbedion ariannol oddi wrth wasanaethau ac mae angen bron £3 miliwn ychwanegol oddi wrth ysgolion, gan wneud arbedion o £25 miliwn mewn arbedion arian parod y mae eu hangen ar hyn o bryd ar y rhagdybiaethau cynllunio a wnaed.
- Mae £168m yn y cronfeydd wrth gefn presennol gyda £40m o wariant wedi'i glustnodi ar gyfer y flwyddyn bresennol a £30m o wariant wedi'i glustnodi ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Mae hyd at 68 o rolau cyfwerth ag amser llawn mewn perygl, gyda mesurau lliniaru parhaus i leihau'r nifer hwn.
- Y cyngor sy'n gyfrifol am oblygiadau cost y dyfarniadau cyflog presennol ac a ragwelir ar gyfer staff ac athrawon llywodraeth leol.
- Rhagwelir y bydd angen benthyca hyd at £50m yn y dyfodol. Caiff unrhyw fenthyca ei ohirio nes bod cyfraddau llog yn fwy deniadol.
- Nid oes cynllun i dynnu arian pellach o'r Gronfa Yswiriant (£14m) eleni yn enwedig gan mai dim ond yn ddiweddar y cytunodd y Cabinet i ddefnyddio swm sylweddol yn y flwyddyn gyfredol. Mae swyddogion yn hyderus bod hyn yn cael ei ariannu'n dda ar hyn o bryd, yn seiliedig ar wybodaeth a chyngor perthnasol.
- Mae tybiaeth bresennol o gynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor at ddibenion cynllunio ond nid oes penderfyniad eto a phenderfynir ar hyn dim ond pan fydd pob cost arall wedi'i ystyried.
- Nid yw Ardoll yr Awdurdod Tân sydd wedi'i osod yn annibynnol yn hysbys eto. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y gallai'r ardoll godi o rhwng 8% ac 17%.

41 **Monitro cyllideb Ch2 2022/23**

Aeth y Cyng. Rob Stewart a Ben Smith drwy adroddiad monitro cyllideb Ch2 ar gyfer 22/23:

- Mae adroddiad Monitro Chwarter 2 yn dangos darlun tebyg i Chwarter 1.
- Gofynnwyd i gyfarwyddwyr osgoi gorwario ac yn gyffredinol rhagwelir ychydig yn llai na £3 miliwn o orwario, fodd bynnag rhagwelir y bydd y cynnydd yng nghyflogau'r athrawon yn bwysau cost gwerth £3.4 miliwn, a ddaw o gronfeydd wrth gefn ysgolion, gan sicrhau bod y gyllideb yn gyffredinol yn gytbwys.
- Mae tanwariant ar ariannu cyfalaf sy'n cael ei ddefnyddio i ychwanegu at y Gronfa Cyfartalu Cyfalaf.
- Mae pwysau sy'n dod i'r amlwg yn yr adran tai a fydd yn effeithio ar gyllid y CRT.

42 Adroddiad Monitro Perfformiad Ch2 2022/23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol. Nodwyd y canlynol:

- O'r 27 dangosydd cymaradwy yn yr adroddiad, roedd 14 yn dangos gwelliant neu berfformiad a oedd wedi'i gynnal. O'r 13 sy'n weddill, dangosodd 4 ddirywiad ond, o fewn 5% yn unig o'r canlyniad blaenorol, dangosodd 2 ostyngiad mewn perfformiad y gellir ei briodoli i effeithiau'r pandemig a dangosodd 7 ostyngiad mewn perfformiad nad oedd yn gysylltiedig â'r pandemig.
- Roedd 6 dangosydd newydd yn ystod chwarter 2, yn bennaf o ganlyniad i gyflwyno fframwaith perfformiad newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru.
- Erys perfformiad diogelu'n gryf, ond mae heriau hefyd yn parhau o ran gallu'r gweithlu, sy'n broblem ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Rhagwelir newid i ddulliau ataliol a lles gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant nad ydynt wedi cael eu gwreiddio'n llawn eto gan fod buddsoddiad yn cael ei gyfeirio tuag at fyrddau iechyd. Er, mae'r cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn modelau ataliol.
- Mae ffigyrau presenoldeb addysg wedi gostwng ond maent o fewn 5% i'r canlyniad blaenorol. Mae gwaith yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau i edrych ar y mater hwn.
- Mae'r economi ac isadeiledd wedi gweld gwelliant o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd o ran nifer y prosiectau â chymalau budd cymdeithasol a'r Tu Hwnt i Frics a Morter yn eu contractau. Cafwyd peth gostyngiad yng nghanran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos oherwydd swyddi gwag o fewn y tîm.
- O ran mynd i'r afael â thlodi, mae'r amserau prosesu ar gyfer Treth y Cyngor a budd-daliadau tai wedi gostwng. Yn debyg i'r chwarter diwethaf, mae'r staff yn parhau i gael eu dargyfeirio i weinyddu grantiau Llywodraeth Cymru yn ogystal â cholli rhywfaint o staff.
- Mae cynnydd mewn salwch staff oherwydd effaith y pandemig a phroblemau o ran oediadau i driniaethau iechyd, a straen personol.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i geisio datblygu dangosyddion newid yn yr hinsawdd a natur newydd a bwriedir eu cyflwyno yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf neu cyn gynted â phosib wedi hynny yn unol â'r gwaith sydd ei angen i'w diffinio a sicrhau bod modd casglu data ac adrodd amdano.

43 Abertawe Gynaliadwy - Diweddariad

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Martin Nicholls, Prif Weithredwr. Nodwyd y canlynol:

- Craffwyd ar Abertawe Gynaliadwy yn y gorffennol, ac roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys yr eitemau a oedd yn weddill.
- Mae Abertawe gynaliadwy wedi darparu gwerth bron i £70 miliwn o arbedion ac mae wedi cyfrannu at ddiwygio'r gwasanaeth ac mae rhai o'r adolygiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod y cyngor yn cynnig gwasanaethau cystadleuol gyda gwerth am arian.
- Gwnaed nifer o ymholiadau am yr adroddiad o ran pa mor dda yr oedd y cynnydd a wnaed yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Caiff y rhain eu nodi mewn llythyr at Aelod y Cabinet ar gyfer ymateb.

44 Llythyrau

Ni wnaed unrhyw sylwadau yn y llythyr atodedig i Aelodau'r Cabinet.

45 Cynllun Gwaith

Ni wnaed sylwadau ar y Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.56pm.

Cadeirydd